# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y Cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Y Grŵp Trawsbleidiol ar y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 9 Rhagfyr 2021 |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod rhithwir |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Darren Millar AS | Cadeirydd a'r Aelod dros Orllewin Clwyd |
| Natasha Asghar AS | Aelod dros Ddwyrain De Cymru |
| James Evans AS | Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed |
| Altaf Hussain AS | Aelod dros Orllewin De Cymru |
| Sam Rowlands AS | Aelod dros Ogledd Cymru |
| Mike Hedges AS | Aelod dros Ddwyrain Abertawe |
| Joel James AS | Aelod dros Ganol De Cymru |
| Peter Fox AS | Aelod dros Sir Fynwy |
| Millie Taylor | Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru (SSCE Cymru) |
| James Dunn | Swyddfa Materion Cyn-filwyr (Swyddfa'r Cabinet) |
| Y Brigadydd Jock Fraser | Y Llynges Frenhinol |
| Comodor yr Awyrlu Dai Williams | Yr Awyrlu Brenhinol |
| Neil Kitchiner | GIG Cymru i Gyn-filwyr |
| Stephen Townley | Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog |
| Dominic Morgan | Cymdeithas Lluoedd Arfog Wrth Gefn a Chadetiaid (RFCA) |
| Lee Gonzalez | Swyddfa Joel James AS |
| Lisa Rawlings | Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Cerys Gage | Llywodraeth Cymru |
| Peter Evans | Llywodraeth Cymru |
| James Wallice | Swyddfa Samuel Kurtz AS |
| Ryland Doyle | Swyddfa Mike Hedges AS |
| Cyrnol Sion Walker | Dirprwy Gomander y 160fed Brigâd |
| Curtis Shea | Ysgrifenyddiaeth |

## Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Alun Davies AS | Is-gadeirydd |
| Samuel Kurtz AS | Aelod dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Megan Greatrex | Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Llyr Gruffydd AS | Aelod dros Ogledd Cymru |
| Paul Davies AS | Aelod dros Breseli Sir Benfro |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

1. Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau.

2. Y wybodaeth ddiweddaraf ers y cyfarfod blaenorol.
    a. Ysgrifennodd y grŵp at Lywodraeth Cymru, Esgob Llandaf a Chyngor Caerdydd i hyrwyddo'r digwyddiadau coffáu yn 2022 i nodi 40 mlynedd ers Rhyfel Falkland. Mae digwyddiad cenedlaethol bellach yn cael ei drefnu ynghyd â derbyniad i gyn-filwyr yn y Senedd.
    b. Cafodd y grŵp y wybodaeth ddiweddaraf am effaith adolygiad amddiffyn Llywodraeth y DU ar Gymru. Roedd hyn yn cynnwys achub Barics Aberhonddu, Barics Hightown Wrecsam yn dod yn gartref i Luoedd y Cymry Brenhinol, y Marchfilwyr Cymreig yn dychwelyd i Gymru a chyflwyno rôl Comisiynydd Cyn-filwyr i Gymru.
    c. Roedd Aelodau o'r Senedd yn bresennol ar gyfer Patrol Cambria 2021 ym mis Hydref fel rhan o Gynllun Lluoedd Arfog y Senedd.

3. Y wybodaeth ddiweddaraf gan Millie Taylor, Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru.
    a. Rhoddodd Millie Taylor y diweddaraf i'r grŵp am waith a datblygiad cyffredinol Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru ers y tro diwethaf iddi annerch y grŵp yn y Bumed Senedd.
    b. Mae Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru wedi tyfu i fod yn dîm o bump, gyda phedwar swyddog rhanbarthol yn gweithio ym mhob rhanbarth o Gymru. Bydd y swyddogion rhanbarthol hyn yn gweithio gydag ysgolion y mae plant milwyr yn eu mynychu.
    c. Mae pecynnau hyfforddi wedi'u llunio ar gyfer ysgolion a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc.
    d. Mae deunyddiau ac adnoddau i gefnogi ysgolion ar gael ar-lein.
    e. Mae'r swyddogion rhanbarthol wedi bod yn casglu data, yn llunio cynlluniau cyllido ar gyfer awdurdodau lleol a chynlluniau gweithredu i sicrhau yr ymgysylltir â phlant aelodau o'r lluoedd arfog.
    f. Mae Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru yn cyflwyno strategaeth Ysgolion Cyfeillgar i'r Lluoedd Arfog sy'n cynnwys tair lefel o wobrau i gydnabod ysgolion sy'n gyfeillgar i'r lluoedd arfog.

g. Awgrymodd Dominic Morgan o'r Gymdeithas Lluoedd Arfog Wrth Gefn a Chadetiaid y byddai cynnal digwyddiadau gwobrwyo i ddathlu'r ysgolion sy'n cyrraedd cerrig milltir penodol yn gam cadarnhaol.
h. Diolchodd y Cadeirydd i Millie Taylor am annerch y grŵp.

4. Cyflwyniad gan James Dunn, Swyddfa'r Cabinet, ar Gomisiynydd Cyn-filwyr i Gymru.
    a. Nododd James Dunn ei fod yn croesawu'r cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.
    b. Mae Swyddfa Materion Cyn-filwyr yn rhan o Swyddfa'r Cabinet o dan arweiniad Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn. Caiff y gwaith o gyflwyno'r rôl hon ei wneud ar y cyd rhwng Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Cymru.
    c. Cyflwynwyd y rôl i sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon, sydd â Chomisiynwyr tebyg.
    d. Rhagwelir y bydd disgwyl i'r Comisiynydd adrodd i'r Gweinidog dros Gyn-filwyr a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Hefyd, disgwylir i'r Comisiynydd weithio gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru.
    e. Y trefniadau presennol yw y bydd y Comisiynydd yn ei le erbyn mis Ebrill 2022.
    f. Ategodd Cerys Gage a Peter Evans o Lywodraeth Cymru sylwadau James Dunn ynghylch cydweithio'n gadarnhaol.
    g. Croesawodd y Cadeirydd y cydweithio cadarnhaol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
    h. Diolchodd y Cadeirydd i James Dunn am annerch y grŵp.

5. Camau gweithredu
    a. Bydd y Grŵp yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i ofyn bod y broses o gasglu data ynghylch plant milwyr yng Nghymru yn cael ei gwella. Hefyd, bydd y grŵp yn ceisio sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid hirdymor i alluogi Cynorthwyo Plant Milwyr yn Ysgolion Cymru i barhau â'i waith.

6. Unrhyw fater arall
    a. Dywedodd Comodor yr Awyrlu Dai Lloyd wrth y grŵp y byddai ymweliad seneddol ag RAF y Fali yn cael ei drefnu.
    b. Cynigiodd y Brigadydd Jock Fraser HMS Cambria fel lleoliad ar gyfer cyfarfod nesaf y grŵp. Hefyd, bydd cyfle i'r Aelodau ymweld â chanolfan hyfforddi awyr agored y Llynges Frenhinol yn Nhal-y-bont.